# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Cynllun Cyflawni'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | Monica Bason-Flaquer |
| **Adran:** | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | Emma Spear |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Jeremy Miles |
| **Dyddiad Dechrau:** | Mawrth 2025 |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Cefndir**

Rhoddodd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP) dystiolaeth bod gwahaniaeth hiliol yn parhau i fodoli yng Nghymru, gan gynnwys o fewn y GIG. Dangosodd ymatebion i'r ymgynghoriad fod recriwtio a dyrchafiadau swydd o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau ethnig leiafrifol, ac nad oes cynrychiolaeth ddigonol o staff ethnig leiafrifol ymhlith arweinwyr. Mae tystiolaeth bellach yn dangos nad oes cynrychiolaeth ddigonol o unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn cael eu tangynrychioli mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac yn profi mynediad anghyfartal at gyfleoedd datblygiad proffesiynol a llwybrau cynnydd. Mae materion systemig yn effeithio'n negyddol ar amrywiaeth penodiadau cyhoeddus drwy roi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o dan anfantais.

Yn 2024, canfu Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES) fod cynrychiolaeth poblogaethau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng ngweithlu'r GIG yn fwy na'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth gyffredinol, gan 3.25%, ond bod eu cynrychiolaeth ar fyrddau 5.88% yn is na'u cynrychiolaeth yn y gweithlu. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru, pobl o bob cefndir, i'w helpu i ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Mae mwy o amrywiaeth yn galluogi mynediad at ystod lawnach o brofiadau bywyd, gan arwain at well dealltwriaeth a all gefnogi gwell penderfyniadau strategol sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae darparu 'Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd' ar gyfer pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn ymrwymiad iechyd allweddol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn perthyn i'r maes ffocws, 'eich profiad pan nad oes gennych fodelau rôl gweladwy mewn swyddi dylanwadol'. Trwy gyflwyno'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd, mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cydnabod bod hiliaeth yn bodoli yn y system penodiadau cyhoeddus bresennol ac yn gwneud ymrwymo'n weithredol i wella hyn.

**Cynnig**

Mae'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn rhaglen datblygu arweinwyr sydd wedi'i chynllunio i baratoi unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr) i sicrhau rolau aelodau annibynnol yng nghyrff y GIG yng Nghymru a llwyddo ynddynt. Mae'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn fenter gynhwysfawr 12 mis i ddatblygu arweinwyr a fydd yn cynnwys digwyddiadau dysgu, lleoliadau Bwrdd di-dâl, a hyfforddiant arweinyddiaeth annibynnol.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Bydd creu Cymru fwy cyfartal, lle gall pawb gymryd rhan, cyrraedd eu potensial llawn, a chyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Mae'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn cefnogi'r nod hwn. O fewn Dangosyddion Cenedlaethau'r


Dyfodol, canfuwyd bod dangosydd 27, ‘pobl yn teimlo bod gan eu hardal leol ymdeimlad o gymuned’, yn gysylltiedig â dangosydd 23, ‘pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol’. Gall cael y cyfle i ddal penodiad cyhoeddus gefnogi’r dangosyddion hyn felly. Mae dyluniad y rhaglen yn adlewyrchu’r egwyddor datblygu cynaliadwy a’r ‘pum ffordd o weithio’ yn adran 5 o Ddeddf 2015. Gallai ffocws ar wrth-hiliaeth gael ei weld fel rhywbeth negyddol ac mae hyn wedi’i ystyried wrth ddatblygu cynllun cyfathrebu a hyrwyddo’r rhaglen. Er mwyn lliniaru’r risg hon, bydd sesiynau gwybodaeth yn cael eu cyflwyno cyn dechrau recriwtio i’r rhaglen sy’n egluro meini prawf cymhwystra’r rhaglen ac yn darparu negeseuon clir ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr angen am y rhaglen. Bydd y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn cyfrannu’n uniongyrchol at Nodau Llesiant Cenedlaethol Cymru iachach, Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal.

*Meddwl am yr hirdymor ac atal*

Bydd y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn cyfrannu at **Nod Pedwarplyg 3** yn **Cymru Iachach** – *Mae’r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn frwd ac yn gynaliadwy.* Mae’r rhaglen yn cefnogi galwadau am newid sylfaenol yn ein dealltwriaeth o’r gweithlu a rhoi hwb i adeiladu capasiti mewn meysydd gallu proffesiynol craidd. Mae grwpiau Du, Asiaidd, cymysg a grwpiau ethnig eraill yn y DU yn iau ar gyfartaledd o’i gymharu â grwpiau ethnig Gwyn *(Ffigur 1)*. Gallai mwy o gyfleoedd i leiafrifoedd ethnig gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu yn y cyd-destun hwn. Bydd y rhaglen yn cefnogi’n uniongyrchol welliannau yn erbyn Dangosydd 1 Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu - *Canran y gwahaniaeth yn ôl ethnigrwydd rhwng aelodaeth weithredol ac anweithredol Bwrdd y sefydliad a’i weithlu cyffredinol*.

**Ffigur 1**

**Oedran cyfartalog (canolrifol) yn ôl grwpiau ethnig lefel uchel, Cymru a Lloegr, 2011 a 2021**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021

*Integreiddio a Chydweithredu*

Mae Gweithgor y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd a ddatblygodd y rhaglen ar y cyd yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- Academi Wales
- Grŵp Blynyddoedd Cynnar Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, tîm Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, tîm Gweithlu’r GIG, Tîm Penodiadau Cyhoeddus, a thîm Amrywiaeth yn y Gweithle

- Grŵp Cyfarwyddwyr Llywodraethiant Corfforaethol a Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr a'r Gweithlu GIG Cymru
- Unigolion ethnig leiafrifol sydd â phrofiad bywyd o'r broses Penodiadau Cyhoeddus

Mae pob corff iechyd yng Nghymru, ynghyd â Llais Cymru, wedi ymrwymo i gefnogi'r rhaglen drwy noddi Darpar Aelod Bwrdd ar gyfer lleoliad bwrdd.

*Cyfranogiad*

Cafodd pobl yr effeithir arnynt gan y cynnig eu cynnwys fel rhan o Weithgor y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys pobl â phrofiad bywyd a grwpiau rhanddeiliaid allweddol o'r GIG a Llywodraeth Cymru. Fe waeth dadansoddiad o ganfyddiadau ymgysylltiad blaenorol â chymunedau ethnig leiafrifol a phenodeion cyhoeddus yng Nghymru lywio datblygiad y rhaglen hefyd.

Sicrhaodd y cyfranogiad hwn fod dyluniad y rhaglen yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r bobl yr effeithir arnynt. Roedd hyn yn cynnwys gwneud dyluniad y rhaglen a'i dull recriwtio a hyrwyddo yn gynhwysol ac yn cyrraedd y cynulleidfaoedd perthnasol; mireinio rôl noddwyr bwrdd; a sicrhau bod y rhaglen yn rhoi cyfle i gyfranogwyr weld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhaglen dysgu a addysgir yn cynnwys ystod eang o siaradwyr a chyd-hwyluswyr o bob rhan o iechyd, gofal cymdeithasol, a'r sector cyhoeddus ehangach, llawer ohonynt o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae adnabod hyfforddwyr sydd â phrofiad bywyd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol hefyd wedi'i nodi fel blaenoriaeth trwy'r ymgysylltu hwn.

*Costau ac Arbedion*

Ar hyn o bryd, nid yw'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd ond wedi sicrhau cyllid ac ymrwymiad ar gyfer y garfan gyntaf, sydd i'w chwblhau erbyn haf 2026. O ran gwireddu'r manteision yn llawn, mae'n debygol y bydd angen cyfnod hwy i weithredu, profi a mireinio'r rhaglen ac i weld gweithredu a gwireddu newidiadau ehangach i brosesau penodiadau cyhoeddus. Fel yr adlewyrchir uchod, mae cyflwyno'r rhaglen ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus wedi galluogi'r defnydd gorau o adnoddau, yn enwedig gan fod llawer o siaradwyr yn cyfrannu'n rhad ac am ddim fel rhan o'u rolau gwaith.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn ymrwymiad iechyd penodol o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a fydd yn cefnogi cynnydd yn erbyn Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu. Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at weledigaeth Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o 'Gymru fel cenedl wrth-hiliol.' Roedd cynnwys y Rhaglen yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ymateb yn uniongyrchol i dystiolaeth a ddarparwyd fel rhan o ymgynghoriad Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn 2022, ac mae sawl adroddiad arall y cyfeirir atynt yn yr asesiad effaith hwn wedi ymgysylltu â chymunedau ethnig leiafrifol a phenodeion cyhoeddus presennol ym maes iechyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd tystiolaeth ac argymhellion y rhain yn sail allweddol ar gyfer dylunio a datblygu'r rhaglen.

Roedd Gweithgor y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn cynnwys unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a cheisiodd fewnbwn ychwanegol yn benodol gan unigolion ethnig leiafrifol sydd â phrofiad bywyd a phroffesiynol perthnasol o'r broses penodiadau cyhoeddus, dal penodiad cyhoeddus, ac o fewn datblygu arweinwyr.

Fe wnaeth Uned Polisi'r Gymraeg yn Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar, yn ogystal â thîm Cymraeg 2050, gymryd rhan yn natblygiad y rhaglen i sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg fel cyfranogwyr y cwrs yn cael eu hystyried, yn ogystal ag ymgorffori themâu allweddol ynghylch y Gymraeg mewn iechyd yn y maes llafur. Am ragor o fanylion, gweler Asesiad y Gymraeg.

Ymhlith y grwpiau eraill yr effeithir arnynt a gafodd eu cynnwys wrth ddatblygu'r rhaglen mae'r uned Penodiadau Cyhoeddus, Ysgrifenyddion Bwrdd a Chadeiryddion cyrff y GIG yng Nghymru, Grŵp Cymheiriaid y Gweithlu a Datblygu Gweithredol.

### Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Bydd y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r nodau llesiant canlynol:

- **Cymru Iachach** - drwy adeiladu piblinell gynaliadwy o arweinwyr y dyfodol i gefnogi ymrwymiadau cenedlaethol i iechyd a llesiant
- **Cymru Lewyrchus** a **Cymru sy'n Fwy Cyfartal** - drwy gefnogi datblygiad proffesiynol pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, gan gynyddu eu cyfleoedd i gyfrannu at newid mewn cymdeithas.

O ystyried rôl y GIG yng Nghymru fel sefydliad angor a'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru, mae dileu hiliaeth a gwahaniaethu yn allweddol i'w alluogi i gyflawni ei botensial o ran bod yn gyflogwr rhagorol ym maes iechyd a llesiant y gweithlu, a fydd, yn ei dro, yn cynyddu ei botensial o ran darparu gofal amserol ac o ansawdd da i bobl Cymru. Bydd gan weithleoedd iechyd a gofal gwrth-hiliol gydweithwyr iach, cydnerth a chynhyrchiol a bydd ganddynt gyfraddau salwch ac absenoldeb is a byddant yn ei chael hi'n haws cadw staff.

Yr effeithiau mwyaf arwyddocaol i **bobl** fydd yr effeithiau ar gyfranogwyr unigol y rhaglen a byddant yn gadarnhaol. Bydd cyfranogwyr yn y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn dod â sgiliau a phrofiad perthnasol a gwerthfawr. Bydd y Rhaglen yn gwella eu dealltwriaeth o system iechyd Cymru ac yn eu helpu i gydnabod y gwerth y gallant ei gynnig fel arweinwyr. Erbyn y diwedd, bydd carfan o unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sy'n 'barod ar gyfer bwrdd' gyda gwybodaeth a phrofiad newydd a gwerthfawr sy'n benodol i gyd-destunau byrddau GIG Cymru. Bydd y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad gyrfa a'u potensial i fynd ymlaen i benodiadau cyhoeddus.

Bydd yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ar **ddiwylliant a'r Gymraeg** yn gadarnhaol. Bydd cynrychiolaeth ehangach a mwy o gynhwysiant ar gyfer unigolion o wahanol gefndiroedd hil ac ethnig o fewn y GIG yn meithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o wahanol ddiwylliannau, gan gyfrannu at hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth. Bydd y rhaglen yn cefnogi uchelgeisiau i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn gweithlu'r sector cyhoeddus, a gweledigaeth Mwy na Geiriau i ymgorffori'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd yr **effeithiau economaidd** mwyaf arwyddocaol yn gadarnhaol. Mae gan y rhaglen y potensial i gefnogi cyfranogwyr mewn ffyrdd a allai effeithio'n gadarnhaol ar eu gyrfa a'u potensial cyflogaeth. I fusnesau, bydd yr effeithiau mwyaf arwyddocaol ar y GIG, ar wella enw da'r sefydliad a chefnogi gweithlu iach a brwd a all gael effeithiau cadarnhaol ar gyfraddau cadw staff a lles a chynhyrchiant staff.

Ni ragwelir unrhyw effeithiau **amgylcheddol** arwyddocaol.

## Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd creu Cymru fwy cyfartal, lle gall pawb gymryd rhan, cyrraedd eu potensial llawn a chyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol. Mae'r Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd yn cefnogi'r nod hwn. O fewn Dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol, canfuwyd bod dangosydd 27, 'pobl yn teimlo bod gan eu hardal leol ymdeimlad o gymuned', yn gysylltiedig â dangosydd 23, 'pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol'. Gall cael y cyfle i ddal penodiad cyhoeddus gefnogi'r dangosyddion hyn felly. Mae dyluniad y rhaglen yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu gynaliadwy a'r 'pum ffordd o weithio' yn adran 5 o Ddeddf 2015. Yn bwysicaf oll, trwy gyfranogiad a chydweithredu, mae profiad byw pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y rhaglen. Gallai ffocws ar wrth-hiliaeth gael ei weld fel rhywbeth negyddol ac mae hyn wedi'i ystyried wrth ddatblygu cynllun cyfathrebu a hyrwyddo'r rhaglen. Er mwyn lliniaru'r risg hon, bydd sesiynau gwybodaeth yn cael eu cyflwyno cyn dechrau recriwtio i'r rhaglen sy'n egluro meini prawf cymhwystra'r rhaglen ac yn darparu negeseuon clir ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr angen am y rhaglen.

## Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Mae tîm Ymchwil Academi Wales yn arwain y gwerthusiad o'r rhaglen. Bydd y model gwerthuso yn canolbwyntio ar ateb y cwestiynau canlynol:

- A ydym ni'n **galluogi'r canlyniadau**? (A ydym ni'n ymgymryd â'r gweithgareddau cywir gyda'r grŵp targed yn y ffordd orau?)
- A ydym ni'n **cyrraedd ein canlyniadau**? (A ydym ni'n newid gwybodaeth/sgiliau/meddylfryd pobl? Ydyn nhw'n bodloni'r deilliannau dysgu?)
- A ydym ni'n **cael effaith**? (A ydym ni'n achosi newid ymddygiad? A yw pobl yn gweithredu'r wybodaeth/sgiliau/meddylfryd newydd rydym ni'n eu haddysgu iddynt?)

Bydd y model hwn yn ymgorffori gwerthusiad ansoddol a meintiol o ddyluniad y rhaglen a'i dull hyrwyddo a recriwtio; o brofiadau'r cyfranogwyr, y noddwyr a'r byrddau; a'r effeithiau ar gyfranogwyr, noddwyr a byrddau.

Bydd gwerthuso'n mynd rhagddo ar hyd yn broses o gyflwyno'r rhaglen fel y gellir nodi unrhyw gyfleoedd uniongyrchol ar gyfer gwella. Ar ôl dod â'r rhaglen i ben, bydd canlyniadau llawn y gwerthusiad yn cael eu hadolygu i lywio'r camau nesaf a'r argymhellion ar gyfer dyfodol y rhaglen.